

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Pwyllgor

Ein Cyf: AG/MR

7 Awst 2017

Annwyl Mr Ramsay

Amseroedd Aros y GIG ar gyfer Gofal Dewisol yng Nghymru a Gwasanaethau Orthopedig

Fel y cytunwyd ar ôl fy ymddangosiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Ionawr 2017 a'm llythyr interim ar 3 Mawrth 2017, rwyf bellach yn darparu diweddariad chwe mis ar gynnydd er gwybodaeth.

O ran amseroedd aros GIG Cymru, mae'n bleser gen i ddweud bod cynnydd parhaus yn cael ei wneud. Yr amseroedd aros ar ddiwedd mis Mawrth 2017 oedd y rhai gorau ers mis Mawrth 2014. Roedd perfformiad mis Mawrth 2017 yn erbyn y targed 26 wythnos yn 88%, 1.2 pwynt canrannol yn uwch na mis Mawrth 2016. Roedd gwelliant hefyd o 4,836 achos o ddisgwyl dros 36 wythnos (28%) o gymharu â mis Mawrth 2016.

Er bod cynnydd wedi bod yn nau fis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, mae'r duedd yn parhau yn is na'r un cyfnod yn 2016. Roedd achosion o ddisgwyl dros 36 wythnos ar ddiwedd mis Mai 2017 yn 1,236 (6%) yn is na'r un dyddiad yn 2016.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddwyn y GIG i gyfrif ar gyfer gwella perfformiad a chydbwyso gallu a galw. Mae'r meysydd ffocws yn cynnwys:

- Mae cynllunio galw a gallu ar gyfer darparu gwasanaethau cynaliadwy yn rhan allweddol o ddull y rhaglen gofal wedi'i gynllunio. Mae data sy'n edrych ar alw a gallu isarbenigedd y bwrdd iechyd yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio i gefnogi'r dasg o ail-gynllunio gwasanaethau sydd wedi'u trefnu'n lleol;
- Gofynnwyd i fyrddau iechyd gyflwyno cynlluniau pontio orthopaedig. Bydd pob cynllun yn dilyn nifer o gamau sy'n cynnwys newid gwasanaeth, cynhyrchiant a gofynion gallu i gydbwyso galw a gallu. Mae angen casglu ac adrodd ar ddata lleol yn well i gefnogi'r broses hon;



BUDDSODDWR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

- Sefydldwyd grŵp gwybodeg gofal wedi'i gynllunio, dan arweiniad Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sydd â'r nod o graffu ar asesiadau effaith data ar gyfer cyflwyniadau i sicrhau cywirdeb data;
- Mae enghraifft o ail-gynllunio i'w weld ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sydd wedi gostwng eu galw dilynol yn sylweddol ar gyfer llwybrau cluniau a phengliniau 70% drwy gyflwyno mesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion (PROM) ar gyfer perfformiad i olrhain cynnydd. Mae'r bwrdd cenedlaethol wedi blaenoriaethu mesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion (PROM) Cluniau a Phengliniau sy'n gysylltiedig â'r llwyddiant hwn;
- Mae dull canlyniadau Cymru gyfan yn cael ei ddatblygu drwy fesurau canlyniadau a adroddwyd gan gleifion (PROM) yn genedlaethol a rhaglenni gwaith mesurau profiadau a adroddwyd gan gleifion (PREM) ledled maes orthopaedeg. Yn y lle cyntaf mae pob bwrdd iechyd yn edrych ar gluniau a phengliniau, ond bydd hyn yn cael ei ehangu gyda datblygiad holiadur cyffredinol y gellir ei ddefnyddio i gwmpasu pob maes. Bydd data'n cael ei ddefnyddio i gefnogi adrodd lleol a chenedlaethol i roi tystiolaeth o ymarfer clinigol, a gellir ei ddefnyddio i adolygu effaith amrywiadau mewn ymarfer;
- Hyd yma, mae 7,800 PROM orthopedig wedi'u cwblhau cyn ac ar ôl llawdriniaeth ledled Cymru;
- Mae pedwar bwrdd iechyd yn defnyddio'r llwyfan cenedlaethol ar gyfer PROM orthopaedig; mae dau yn parhau i ddefnyddio Amplitude. Disgwylir i bob bwrdd iechyd adrodd ar PROM orthopaedig erbyn diwedd 2017.
- Ar hyn o bryd mae PREM yn cael eu casglu at lefel cleifion allanol ledled Cymru drwy wahanol ddulliau/ffynonellau. Disgwylir i'r broses o gasglu PREM fod yn gyson â PROM ar ôl datrys problemau adrodd a ddylai fod ar waith ar ddechrau 2018.

Yn eich adborth blaenorol roeddech chi'n gofyn am dystiolaeth bod gallu presennol yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl, a gallaf ddarparu tystiolaeth ychwanegol i chi o gynnydd yn y maes hwn:

Y defnydd effeithiol o allu

Drwy'r rhaglen gofal wedi'i gynllunio (PCP) ac fel rhan o fframwaith cyflenwi'r GIG, mae is-set o weithdrefnau/triniaethau wedi'u nodi gyda'r dosbarthiad "ymyriadau nad ydynt yn cael eu cyflawni fel arfer" (INNU). Mae'r rhain yn ymyriadau sy'n effeithiol i raddau cyfyngedig iawn a rhai sy'n aneffeithiol (gweithdrefnau a meddyginiaethau) y tybir nad oes ganddynt unrhyw werth clinigol, neu werth clinigol cyfyngedig. Er bod cynnydd yn cael ei wneud (gweler y tabl isod), mae herio clinigol gyda monitro yn cael ei gyflawni drwy grwpiau gweithredu cenedlaethol.

Operation	2014	2015	2016	2017	Grand Total
Blepharoplasty for cosmetic reasons	218	262	250	112	842
Excision of benign eyelid lesion for non-cosmetic reasons	146	191	167	71	575
Radiology requests for non-specific lower back pain	154	242	274	82	752
Rhinoplasty for cosmetic reasons	256	295	339	153	1043
Therapies for non-specific lower back pain	741	1021	942	298	3002
Arthroscopic lavage and debridement	157	198	137	49	541

- Mae argymhellion adolygiad orthopedig GIRFT ("get it right first time") wedi'u mabwysiadu gan y bwrdd gweithredu orthopedig. Mae rhai o'u canfyddiadau yn herio clinigwyr, gan eu bod wedi canfod tystiolaeth o lawfeddygon yn cyflawni nifer isel o rai gweithdrefnau llawfeddygol bob blwyddyn. Mae hyn yn peri gofid, oherwydd y gall niferoedd isel o arthoplasti er enghraifft, arwain at ganlyniadau llai ffafriol ynghyd â

chostau cynyddol. Drwy adolygiad caffael dan arweiniad Cydwasanaethau, mae amrywiadau yn y defnydd o brosthesis wedi'u nodi a'u hadrodd i'r bwrdd orthopaedig ar gyfer trafodaeth glinigol. Mae cyflwyniad diweddar i'r bwrdd orthopaedig wedi dangos:

- Mae Goroesi Mewnblaniadau Dan Oruchwyliaeth bellach yn gyson â Lloegr, mae cyfraddau diwygio Prif Fewnblaniadau Cluniau yng Nghymru yn is na Lloegr;
 - Bydd arferion da sydd wedi'u gweld ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.
- Mae trafodaethau clinigol yn cael eu cynnal o fewn y bwrdd orthopaedig am fodolau gwaith rhanbarthol posibl yn y dyfodol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon yn defnyddio ei gyfarfodydd â chadeiryddion byrddau iechyd i geisio cael sicrwydd am ddatblygiad gweithio rhanbarthol ar draws byrddau iechyd i sicrhau bod modelau clinigol cynaliadwy seiliedig at dystiolaeth yn cael eu datblygu. Mae'r trafodaethau'n rhan o'r adolygiad cenedlaethol o wasanaethau orthopaedig sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Effeithlonrwydd

- Mae cyflawni yn erbyn cyfres o fesurau effeithlonrwydd gofal wedi'u cynllunio y cytunwyd arnynt wedi dangos gwelliannau ers llunio adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru (gweler atodiad A). Mae cyfartaledd hyd arhosiad ar gyfer orthopaedeg dewisol wedi gwella 0.2 diwrnod (gwella'n raddol am 12 mis ers Rhagfyr 2016); mae hyd arosiadau ar gyfer cluniau wedi gwella 0.4 diwrnod, a 0.2 diwrnod ar gyfer pengliniau. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau gwelliannau pellach mewn effeithlonrwydd.

Ymgysylltu clinigol

- Mae'r dull partneriaeth yng Nghymru rhwng llywodraeth a'r GIG yn cefnogi dull cydweithredol o newid gwasanaeth. Mae ymgysylltu clinigol rhagorol drwy raglen genedlaethol gofal wedi'i gynllunio yn helpu i ddatblygu gwahanol ffyrdd o weithio sy'n sicrhau gwell gwasanaethau ar gyfer dinasyddion Cymru.
- Mae gan bob un o'r meysydd rhaglen gofal wedi'i gynllunio gynrychiolaeth glinigol o bob bwrdd iechyd, ac mae'r grwpiau arbenigol yn cael eu cadeirio gan arweinydd clinigol. Dengys tystiolaeth mai her gan gyfoedion ac ymgysylltu gweithredol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi newid clinigol. Mae'r cynlluniau gweithredu cenedlaethol yn cael eu datblygu a'u cefnogi gan y clinigwyr hyn ac yn cael eu hategu gan dystiolaeth glinigol gadarn.
- Mae clinigwyr yn gweithio gydag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru hefyd i archwilio mesurau mynediad mwy priodol i gefnogi darpariaeth gwasanaeth seiliedig ar dystiolaeth a gwell canlyniadau i gleifion.

Diweddariadau ac argymhellion eraill

- Cyflwynwyd y canllawiau Rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth diwygiedig i'r GIG i'w rhoi ar waith ym mis Ebrill. Mae adborth ffurfiol gan fyrrddau iechyd ar ôl chwarter 1 wedi dangos bod y rheolau diwygiedig wedi'u rhoi ar waith. Mae'r gwaith gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar newidiadau TG yn parhau, ond nid yw hyn yn amharu ar eu gweithrediad. Mae byrddau iechyd yn gweithio gyda'u grwpiau cleifion lleol i adlewyrchu'r canllawiau cenedlaethol a gwybodaeth i gleifion yn eu polisiâu mynediad lleol a'u hadnoddau gwybodaeth i gleifion. Mae hyn yn ychwanegol at y "crynodeb o welliannau allgleifion" ar y wefan sy'n cefnogi rhannu arferion da drwy'r GIG yng Nghymru. <http://www.goodpractice.wales/OIPcasestudies1>

- Mae byrddau iechyd yn parhau i weithio ar ail-gynllunio eu gwasanaethau allgleifion yn unol â'r weledigaeth a ddatblygwyd yn genedlaethol fel y crybwyllir yn niweddariad mis Mawrth 2017. Dangosodd y modelau ail-lunio gwasanaeth yn y rhaglen gofal wedi'i gynllunio bod cynlluniau penodol i wasanaethau yn gwbl gyson â'r weledigaeth hon. Cafwyd oedi cyn terfynu'r fanyleb genedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrsgerbydol Clinigol (CMATS), ond dylid ei gyhoeddi ym mis Awst i'w roi ar waith. Mae byrddau iechyd eisoes wedi dechrau diwygio eu gwasanaethau lleol yn unol â'r model newydd. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy'r bwrdd orthopaedig cenedlaethol.

Hyderaf fod y llyfr hwn yn rhoi sicrwydd pellach i chi bod cynnydd yn cael ei wneud yn y meysydd pwysig hyn.

Yn gywir



Dr Andrew Goodall

Atodiad A: Cynnydd o ran Cyflenwi'r Llwybr Gofal wedi'i Gynllunio

Mesur Allweddol 1: Hyd Arhosiad Cyfartalog Dewisol

Arbenigedd	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Llawfeddygaeth Gyffredinol	3.8	3.8
Wroleg	2.3	2.3
Trawma ac Orthopaedeg	3.8	3.6
Clust, Trwyn a Gwddf	1.3	1.2
Gynaecoleg	2.5	2.4
Cyfanswm Arbenigedd	3.1	3.0

Mesur Allweddol 2: Cyfraddau Achos Dydd

Arbenigedd	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Llawfeddygaeth Gyffredinol	57.2%	58.3%
Wroleg	81.9%	80.8%
Trawma ac Orthopaedeg	59.7%	59.1%
Clust, Trwyn a Gwddf	53.1%	55.5%
Offthalmoleg	96.2%	96.4%
Llawfeddygaeth y Geg	82.0%	81.9%
Gynaecoleg	68.0%	67.0%
Cyfanswm Arbenigedd	71.4%	71.5%

Mesur Ategol: Derbyniadau Diwrnod Llawfeddygaeth

Arbenigedd	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Llawfeddygaeth Gyffredinol	61.4%	61.4%
Wroleg	78.5%	80.2%
Trawma ac Orthopaedeg	69.5%	71.8%
Clust, Trwyn a Gwddf	90.0%	80.8%
Offthalmoleg	75.3%	78.3%
Llawfeddygaeth y Geg	57.3%	62.6%
Gynaecoleg	70.6%	73.4%
Cyfanswm Arbenigedd	71.2%	72.6%

Mesur Ategol: Debyniadau Dewisol Heb Weithdrefn

Math o Glaf	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Cleifion Mewnol	3.9%	3.8%
Achos Dydd	6.3%	5.9%

Mesur Ategol: Cyfartaledd Hyd Arhosiad Gweithgareddau Dewisol

Gweithdrefn	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Cluniau	5.6	5.2
Pengliniau	5.4	5.2

Cynnydd Cyflenwi Allgleifion: Cymru gyfan**Mesur Allweddol 3: Cyfradd DNA Cleifion Allanol Newydd**

Arbenigedd	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Llawfeddygaeth Gyffredinol	7.3%	6.9%
Wroleg	9.1%	8.5%
Trawma ac Orthopaedeg	7.9%	7.6%
Clust, Trwyn a Gwddf	7.9%	7.4%
Offthalmoleg	6.9%	7.2%
Llawfeddygaeth y Geg	7.3%	6.5%
Dermatoleg	7.3%	8.2%
Rhiwmatoleg	8.4%	7.7%
Paediatreg	11.3%	10.6%
Gynaecoleg	8.6%	7.8%
Meddygaeth Gyfunol	8.6%	8.7%
Cyfanswm Arbenigedd	8.0%	7.8%

Mesur Allweddol 4: Cyfradd DNA Cleifion Allanol Dilynol

Arbenigedd	Perfformiad Llinell Sylfaen 2015/16	Gwiriad Interim Rhagfyr-2016
Llawfeddygaeth Gyffredinol	8.7%	8.7%
Wroleg	8.5%	8.3%
Trawma ac Orthopaedeg	8.8%	8.5%
ENT	10.7%	10.7%
Offthalmoleg	7.3%	7.3%
Llawfeddygaeth y Geg	10.5%	10.1%
Dermatoleg	8.0%	8.1%
Rhiwmatoleg	8.9%	9.2%
Paediatreg	15.7%	15.5%
Gynaecoleg	9.6%	9.5%
Meddygaeth Gyfunol	10.9%	10.9%
Cyfanswm Arbenigedd	9.4%	9.3%